Cyngor Sir Ceredigion **Gofal Cymdeithasol**

# Taliadau Uniongyrchol

**…yn gofalu i wneud gwahaniaeth**

**Print Bras neu fformatau eraill**
**ar gael drwy ofyn amdanynt**

**Ffoniwch**



01545 574000



**neu E-bostiwch**
**cyswllt-socservs@ceredigion.gov.uk**

**Oriau Swyddfa'r Porth Gofal:**

| | |
|---|---|
| **Dydd Llun – Iau:** | **8.45 y.b.. – 5.00 y.p..** |
| **Dydd Gwener:** | **8.45 y.b.. – 4.30 y.p..** |

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion ar ein gwefan ar:
**www.ceredigion.gov.uk**

Adolygwyd Ebrill 2021

**Taliadau Uniongyrchol**

## 1.0 Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

1.1 Ar ôl i chi gael asesiad a phenderfynir eich bod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymunedol wrth y Gofal Cymdeithasol, gallwn naill ai drefnu gwasanaethau i chi neu gallwch ddewis derbyn taliadau a threfnu'r gwasanaethau eich hunain. Gelwir hyn yn **Daliad Uniongyrchol** a bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd, rheolaeth a dewis i chi yn y gofal byddwch yn ei dderbyn a thrwy hynny eich galluogi i fyw mor annibynnol â phosib.

1.2 Gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer anghenion tymor byr neu dymor hir fodd bynnag gellir ond eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan y Gofal Cymdeithasol.

1.3 Os ydych chi'n credu y gall Taliadau Uniongyrchol fod yn addas ar gyfer rhywfaint o'ch anghenion gofal, ond nid y cyfan, gallwch dderbyn cymysgedd o Daliadau Uniongyrchol a rhai gwasanaethau a drefnir gennym ni.

1.4 Nid yw Taliadau Uniongyrchol yn fudd-dal yr Adran Gwaith a Phensiynau ac ni fydd yn effeithio ar eich hawl i dderbyn budd-daliadau o'r fath ac ni ystyrir y taliadau ychwaith fel incwm at bwrpas treth.

## 2.0 Pwy all dderbyn Taliadau Uniongyrchol?

Gellir cynnig Taliadau Uniongyrchol i bron unrhyw un a aseswyd yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymunedol. Pan fyddwch chi wedi eich asesu a phenderfynir bod angen gwasanaethau gofal cymunedol arnoch bydd dyletswydd ar yr asesydd i gynnig Taliad Uniongyrchol i chi.

2.1 Mewn nifer bach iawn o achosion, gall Gorchmynion Llys ynghylch dibyniaeth ar gyffuriau/alcohol olygu nad ydy Taliad Uniongyrchol yn bosib, fodd bynnag bydd yr asesydd yn trafod hyn gyda chi.

2.2 Gellir talu Taliadau Uniongyrchol i berson addas arall a allai fod yn gweithredu ar ran yr unigolyn sydd angen gofal gan gynnwys oedolion sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sydd ag anableddau.

## 3.0 Ar gyfer beth gallaf ddefnyddio'r Taliadau Uniongyrchol?

3.1 Dim ond ar gyfer prynu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch yn ôl eich asesiad a'r rhai y manylir arnynt yn eich Cynllun Gofal y gallwch ddefnyddio'r arian rydych yn ei dderbyn, er enghraifft:

- I gyflogi rhywun yn uniongyrchol i'ch helpu gyda'ch gofal (Cynorthwyydd Personol)
- I brynu gofal wrth asiantaeth gofal cofrestredig preifat
- I wneud eich trefniadau eich hun yn lle defnyddio gofal dydd neu ofal seibiant y Gofal Cymdeithasol
- I brynu cyfarpar.

## 4.0 Beth na ellir defnyddio'r Taliadau Uniongyrchol ar eu cyfer?

4.1 Ni ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu gofal, cefnogaeth a chymorth nad ydynt wedi'u nodi yn y cynllun gofal a chymorth unigol ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer:

- prynu unrhyw wasanaethau'r Awdurdod Lleol, gan na chaniateir i Awdurdodau Lleol werthu eu gwasanaethau yn y modd hwn
- Diwallu anghenion gofal iechyd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir o dan Gyllid Gofal Iechyd Parhaus
- Gwasanaethau tai

## 5.0 Beth sydd ynghlwm wrth reoli Taliadau Uniongyrchol?

5.1 Os ydych yn penderfynu cael Taliadau Uniongyrchol, byddwch yn gyfrifol am y canlynol:

- Defnyddio'r arian i dalu am y cymorth rydym ni wedi cytuno sydd ei angen arnoch yn unig
- Cadw cofnodion i ddangos bod yr arian wedi ei wario yn y ffordd gywir
- Os fyddwch yn dewis cyflogi rhywun fel Cynorthwyydd Personol, bydd gennych yr holl gyfrifoldebau arferol sydd gan gyflogwr. Fodd bynnag, mae cymorth a chefnogaeth ar gael ar gyfer hyn

## 6.0 Faint o arian byddaf yn ei dderbyn?

6.1 Bydd swm yr arian byddwch yn ei gael yn dibynnu ar faint a'r math o gefnogaeth sydd ei angen arnoch. Bydd eich Cynllun Gofal yn cynnwys faint o gymorth sydd ei angen arnoch bob wythnos a faint byddwch yn cael eich talu.

**7.0 A fydd yn rhaid i mi gyfrannu at y gost?**

7.1 Mae'n bosib y gofynnir i chi dalu am ran o'r gost am eich gofal. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o ofal a aseswyd oedd ei angen arnoch ac mae'n bosib y bydd hefyd yn dibynnu ar eich incwm a'ch cynilon. Os bydd yn rhaid i chi dalu, bydd y swm yr un peth os byddwch yn dewis derbyn Taliadau Uniongyrchol neu'n dewis gwasanaethau a drefnwyd gennym ni.

7.2 Bydd eich asesydd yn medru trefnu asesiad ariannol ar eich cyfer i weld faint (os o gwbl) bydd yn rhaid i chi ei dalu tuag at eich gofal.

**8.0 A fyddaf yn derbyn cefnogaeth i reoli fy Nhaliadau Uniongyrchol?**

8.1 O 1af Ebrill 2021, bydd gan Gyngor Sir Ceredigion dîm mewnol o'r enw Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol a fydd yn rhoi cymorth a chefnogaeth am ddim i unrhyw un sy'n penderfynu gwneud cais am Daliadau Uniongyrchol. Bydd y staff sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol yn rhoi gwybodaeth, cefnogaeth yn ogystal â chymorth ymarferol i chi gyda recriwtio a chyflogi staff, talu cyflogau a helpu gyda threthi a thaliadau Yswiriant Gwladol.

8.2 Gallwch hefyd gael cymorth wrth eich teulu a ffrindiau.

8.3 Os byddwch chi'n penderfynu cyflogi cynorthwyydd personol, mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu pecyn cymorth ar-lein sy'n darparu canllawiau, enghreifftiau ac offer ymarferol. Bydd hyn yn eich galluogi i gefnogi eich cynorthwyydd personol i ennill y sgiliau sydd eu hangen arno er mwyn bod yn hyderus a chymwys yn ei rôl.

Gallwch weld y pecyn cymorth trwy ymweld ag www.paemployertoolkit.wales

**9.0 Beth os fydd fy anghenion yn newid?**

9.1 Os bydd eich anghenion yn newid bydd angen i chi gael eich asesu eto er mwyn gweld os fydd angen i'ch Taliadau Uniongyrchol newid hefyd.

9.2 Os ydych yn gweld nad ydych eisiau Taliadau Uniongyrchol bellach, gallwch ofyn i'r Gofal Cymdeithasol drefnu eich gwasanaethau yn lle.

**10.0 Sut allaf wneud cais?**

10.1 Os ydych ar hyn o bryd yn y broses o gael eich anghenion wedi eu hasesu gan y Gofal Cymdeithasol, gofynnwch i'r asesydd am Daliadau Uniongyrchol, fel arall bydd yn rhaid i chi gysylltu â Porth Gofal i ofyn am asesiad o'ch anghenion. Gallwch gysylltu â nhw ar y canlynol:

**01545 574000**

**contact-socservs@ceredigion.gov.uk**

10.2 Bydd y swyddog yn cymryd gwybodaeth fanwl wrthoch chi (a elwir yn Ymholiad Cyswllt). Bydd y manylion yn cynnwys eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, Meddyg Teulu, tarddiad ethnig, crefydd, dewis iaith, beth yw eich problemau iechyd a beth rydych yn ei weld yn anodd (gellir cael gwybodaeth bellach yn ein taflen wybodaeth 'Sut i Fanteisio ar ein Gwasanaethau?').

**10.3 Os byddwch yn cysylltu â ni ar ran rhywun arall, mae'n bwysig iawn eu bod yn ymwybodol o hyn a'ch bod yn cael eu caniatâd cyn eich bod yn ein ffonio ni. Bydd y swyddog yn gofyn i chi gadarnhau hyn.**

10.4 Yna, bydd yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn cael ei basio at y Tîm perthnasol fel bod rhywun yn cysylltu â chi ac yn trefnu ymweliad.

10.5 Gallwch hefyd gysylltu â'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol i gael mwy o wybodaeth:

**01545 574000**

**TU_DP@ceredigion.gov.uk**

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi egwyddor cydraddoldeb ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd manteisio teg ac mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.**

## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth ar gael a lle bo hynny'n bosib, byddwn yn trefnu i rywun eich cynorthwyo i gyflwyno eich barn wrth i chi ymdrin â ni os nad yw'n bosib i chi wneud hynny eich hun ac os nad oes gennych deulu neu ffrindiau i'ch helpu.

## Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Ceredigion (CIPA)

Gall y gwasanaeth hwn eich cynorthwyo chi (neu eich gofalwr) os ydych chi dros 18 oed, yn byw yng Ngheredigion a'ch bod yn derbyn asesiad neu adolygiad ar hyn o bryd o'ch anghenion gofal a chymorth neu fod gennych bryder o ran diogelu.



**0800 206 1387**

Bydd **Eiriolaeth Gorllewin Cymru'n** darparu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pobl yn y gymuned ac ar gyfer cleifion anffurfiol yn Ward Morlais, Ysbyty Glangwilli, Caerfyrddin.



**01437 762935**



www.advocacywestwales.org.uk

admin@advocacywestwales.org.uk

Mae **TGP Cymru** yn darparu help i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau eu parchu a'u lleisiau eu clywed. Gallant ddarparu gwybodaeth, eiriolaeth, cynrychiolaeth, cyngor a chefnogaeth.

**0808 1682599**

**01545 571865**

midandwestwales@tgpcymru.org.uk

**Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd**

Bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â'ch gofal heb eich caniatâd (oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn unol â'r gyfraith neu os ceir amgylchiadau arbennig, fel eich diogelwch a/neu ddiogelwch eraill).

**Argyfyngau**

Os bydd angen help arnoch ar frys y tu allan i oriau agor y Porth Gofal (fel y nodwyd tu fewn clawr y daflen hon), cysylltwch â'n Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa ar:

**0300 4563554**

**Cyflwyniadau/Cwynion/Sylwadau**

Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw rai o'n gwasanaethau, neu â'r ffordd yr ydych wedi cael eich trin, dylech drafod hyn gyda Rheolwr y Tîm y mae gennych gyswllt ag ef yn gyntaf.  Mawr obeithiwn y bydd modd datrys y broblem ar yr adeg hon.

Os nad ydych yn fodlon o hyd fodd bynnag, gallwch fynd â'r mater hwn ymhellach trwy wneud cwyn ffurfiol, gan bod gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion weithdrefn gwyno.

Os ydych yn credu ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda, gallwch ddweud hynny wrthym hefyd.

Gofynnwch i'r **Gofal Cymdeithasol** am daflen 'A ydym yn llygad ein lle? A oes gennych unrhyw Sylwadau, Cwynion neu Ganmoliaeth?'

Mae taflenni eraill yn rhoi manylion am y gwahanol wasanaethau a gynigir gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion ar gael drwy ofyn amdanynt o'r Porth Gofal. Os ydych am ragor o wybodaeth, ffoniwch ar:



**01545 574000**

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch cynnwys a chynllun y daflen hon, yn ogystal a'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn. Mae'ch safbwyntiau chi yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro a gwella'r ansawdd yn ôl yr angen. A fyddech gystal â mynd ati i lenwi'r canlynol:

Enw: ……………………………………………………………………

Cyfeiriad:
……………………………………………………………………

……………………………………………………………………

……………………………………………………………………

……………………………………………………………………

Rhif Ffôn: ………………………………  Dyddiad: ……………..

Cafwyd taflen gan:
…………………………………………………………………..

Fy nghanmoliaeth neu fy nghwyn:

……………………………………………………………………

……………………………………………………………………

……………………………………………………………………

(A fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân os bydd angen mwy o le arnoch)



Dylech anfon y dudalen hon at:

Porth Gofal
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth

SY23 3UE

**Diolch am eich sylwadau**